

Dasatinib, nilotinib a dos uchel o imatinib ar gyfer trin lewcmia myeloid cronig mewn oedolion ag ymwrthedd neu anoddefiad i imatinib

21 Rhagfyr 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir dasatinib (Sprycel) a nilotinib (Tasigna) fel triniaethau posibl ar gyfer oedolion â lewcmia myeloid cronig cromosom-Philadelphia-positif yn y cam cronig neu wedi'i gyflymu os na allant gael imatinib neu os yw'r clefyd wedi gwaethgu ar ôl triniaeth gydag imatinib.

Nid argymhellir dos uchel o imatinib (Glivec) ar gyfer trin lewcmia myeloid cronig cromosom-Philadelphia-Positif yn y cam cronig, wedi'i gyflymu neu argyfwng-ffrwydrad sydd wedi gwaethgu ar ôl ei drin â dos safonol o imatinib.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych lewcmia myeloid cronig, a bod eich meddyg yn credu mai dasatinib neu nilotinib yw'r driniaeth gywir, dylech allu ei chael ar y GIG.

Fel arfer, ni ddylid rhagnodi dos uchel o imatinib ar y GIG ar gyfer trin lewcmia myeloid cronig cromosom-Philadelphia-Positif yn y cam cronig (pan fydd y rhan fwyaf o unigolion yn cael diagnosis), ac yn y cam wedi'i gyflymu neu argyfwng-ffrwydrad sydd wedi gwaethgu ar ôl ei drin â dos safonol o imatinib. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael i chi. Os ydych eisoes yn cymryd dos uchel o imatinib ar gyfer y cyflwr hwn, dylech barhau i'w gymryd nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn rhoi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r triniaethau

Mae lewcmia myeloid cronig yn ganser o fath o gell gwaed gwyn (a elwir yn gelloedd myeloid). Mae'r celloedd hyn yn lluosu mewn ffordd afreolus ac yn

atal celloedd gwaed eraill rhag gweithio'n iawn. Mae 3 phrif gam i'r afiechyd: y cam cronig, y cam wedi'i gyflymu a'r cam argyfwng-ffrwydrad. Mae gan y rhan fwyaf o bobl â lewcemia myeloid cronig gromosom annormal a elwir yn gromosom Philadelphia yn eu celloedd canser (a elwir yn afiechyd cromosom-Philadelphia-Positif).

Mae dasatinib, imatinib a nilotinib yn atal celloedd canser rhag tyfu a lluosu. Mae'n arafu neu'n atal y canser rhag lledaenu.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [GOFAL Lewcemia](#), 0808 8010 444
- [Bloodwise](#) (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol), 0207 504 2200
- [Cymdeithas Canser Lewcemia](#), 0208 374 4821
- [CLL Support Association](#), 0800 977 4396
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2322-9